

Canllaw ar Sut i Osod



Tunstall Lifeline Vi



teleofalcaerdydd.co.uk



02920 537080



Teleofal@caerdydd.gov.uk



teleofalcaerdydd.co.uk

Mae'r canllaw hwn yn cynnwys yr holl wybodaeth a chanllawiau perthnasol sydd eu hangen i osod a phrofi eich larwm Tunstall Lifeline Vi newydd yn llwyddiannus.

Cynnwys

tudalen


• Beth sydd yn y bocs?	4
• Eich Uned Cartref	5
• Cyngor ar Ddiogelwch	6-7
• Canllaw Cychwyn Cyflym	8-9
• Defnyddio'r Uned Cartref	10
• Rhybuddion Statws	11
• Gwybodaeth Ddefnyddiol	12

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch neu os ydych yn cael trafferth yn ystod y broses hunan-gysylltu, cysylltwch â ni yn syth ar **02920 537080**




Beth sydd yn y bocs?


Pan fyddwch chi'n agor y bocs am y tro cyntaf, sicrhewch fod gennych y canlynol:



Uned Larwm




MyAmie Crog




Cortyn Gwddf Crog




Strap Arddwrn Crog



Cabl Ffôn




Addaswr Ffôn




Addaswr Prif Gyflenwad

Eich Uned Cartref

Y Blaen



Cefn ac Ochr



02920 537080


Cyngor Diogelwch

PWYSIG: Cysylltwch yr uned cartref â'r pwynt ffôn cyntaf yn y tŷ gyda'r holl rannau eraill wedi'u gwifro i'r uned i sicrhau ei bod yn gweithio'n iawn, hyd yn oed pan fo ffôn arall yn cael ei ddefnyddio neu oddi ar y bachyn (gweler isod am ragor o fanylion).

RHAID cysylltu'r holl offer sydd angen cysylltiad â llinell ffôn fel a ganlyn:

Ffonau estyn/bocsys clyfar/modem/setiau teledu Bocsys uchel

RHAID i bob ffôn yn y cartref gael ei gysylltu'n uniongyrchol â'r uned cartref gan ddefnyddio addaswr ffôn a soced yr uned cartref i alluogi'r uned cartref i ddatgysylltu ffonau estyn wrth wneud galwad larwm. Efallai y bydd angen addaswr ffôn lluosog i gysylltu mwy nag un ffôn (heb ei gyflenwi).



Ffonau di-wifr

Sicrhewch fod y prif sylfaen/gwefrydd sydd wedi'i gofrestru â phob ffôn arall wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â'r uned cartref fel uchod.

Safe Socket™

Fel arall, gallwch osod Safe Socket ar bob estyniad a ddefnyddir gan offer arall, heblaw am Lifeline, i sicrhau bod galwadau larwm yn cael eu cyflwyno hyd yn oed pan fo'r llinell yn cael ei defnyddio gan estyniad arall. Cysylltwch â Teleofal Caerdydd ar **02920 537080** i ofyn ynghylch prynu Safe Socket.

Band eang

Sicrhewch fod gennych hidlydd ADSL o safon a bod yr uned cartref wedi cysylltu â soced (analog) y ffôn ar yr hidlydd. Cysylltwch â'ch cyflenwr i gael rhagor o gyngor os oes angen.

Gwnewch y canlynol:

- Cysylltwch yr uned cartref i'r prif gyflenwad bob amser.
- Cysylltwch yr uned cartref i'r pwynt ffôn cyntaf yn y tŷ gyda'r holl estyniadau eraill wedi'u gwifro i'r uned i sicrhau ei bod yn gweithio'n iawn, hyd yn oed pan fo ffôn arall yn cael ei ddefnyddio neu oddi ar y bachyn.
- Cysylltwch â'ch cyflenwr cyn gynted â phosibl ar ôl i'r LED fflachio ar y radio personol - mae hyn yn golygu bod y batri'n isel.

Peidiwch â:

- rhoi'r uned cartref mewn dŵr neu hylifau eraill.
- cysylltu ceblau ac eithrio'r rhai sy'n dod gyda'r uned cartref.
- rhoi'r uned cartref ger rhywbeth sy'n gwneud llawer o sŵn, megis teledu, radio neu beiriant golchi.
- rhoi'r uned cartref yn agos at ffynhonnell gwres megis popty neu ficrodon




Canllaw Cychwyn Cyflym


Cam 1 - Cysylltu'r ceblau a'r addaswyr

Dilynwch y camau isod i blygio'r ceblau'n gywir i'r uned cartref.


Cam 1.1 – Plygiwch wifren y ffôn (a) i mewn i soced yr uned cartref sydd wedi'i labelu LINE a soced wal y ffôn.



Cam 1.2 – Plygiwch addaswr y ffôn (b) i mewn i soced yr uned cartref ac yna plygiwch yr holl ffonau / offer gofynnol i mewn i addaswr y ffôn (b) gan ddefnyddio estyniad aml-soced os oes angen (heb ei gyflenwi). Gweler tudalen 6 am ragor o fanylion ar fodema, ffonau estyniad, bocsys clyfar, bocsys ar gyfer top setiau teledu.



Cam 1.3 – Plygiwch addaswr y prif gyflenwad Ⓢ i mewn i soced yr uned cartref sydd wedi'i labelu DC ac yna cysylltwch ef i'r prif gyflenwad. Sylwch - sicrhewch fod pŵer y prif gyflenwad ymlaen.



Cam 2 - Profi/Comisiynu

Sicrhewch fod yr uned cartref wedi'i rhaglennu i'r rhifau ffôn cywir, yna pwyswch y botwm larwm coch ar yr uned cartref a sicrhewch ei bod yn gwneud galwad i'r ganolfan fonitro/derbynnydd personol. Hefyd, cofiwch brofi'r teclyn crog drwy bwyso'r botwm coch a sicrhau bod galwad yn cael ei chyflwyno. Dylid profi'r teclyn crog mewn mannau amrywiol o amgylch yr eiddo i sicrhau bod cyrhaeddiad y radio'n ddigon da fel bod modd i'r defnyddiwr gyflwyno galwad larwm gan ddefnyddio ei sbardun radio personol.


Cam 3 - Yn barod i'w ddefnyddio

Unwaith y mae wedi'i phrofi'n llwyddiannus, mae'r uned cartref yn barod i'w defnyddio.

Defnyddio'r Uned Cartref


Gwneud galwad larwm

Pwyswch y botwm coch ar y sbardun radio personol neu'r botwm larwm coch ar yr uned cartref. Bydd yr uned cartref yn cyhoeddi 'Peidiwch â phoeni, mae eich ffôn larwm yn galw am help.' Bydd gweithredwr yn y ganolfan fonitro'n ateb yr alwad. Dwedwch wrth y gweithredwr pam eich bod wedi cyflwyno'r alwad, a bydd yn trefnu i chi gael help.



Canslo galwad larwm

Arhoswch 5 eiliad (ar ôl pwyso'r botwm larwm) a phwyswch y botwm canslo gwyrdd. Mae'r oedi hwn yn atal canslo galwad larwm ar gam. Gellid canslo galwadau larwm a gyflwynir o sbardun radio personol yn syth drwy bwyso'r botwm canslo gwyrdd.




Rhybuddion Statws

Monitro'r llinell ffôn

Os yw'r llinell ffôn yn torri neu'n cael ei datgysylltu, bydd yr uned cartref yn cyhoeddi *'RHYBUDD - nid yw'r llinell ffôn wedi cysylltu'* ar ôl munud a bydd y golau LED gwyrdd yn fflachio. Bydd y rhybudd hwn yn ailadrodd bob 30 eiliad nes bydd y llinell ffôn ar gael eto.

I dawelu'r rhybudd, ailgysylltwch y llinell ffôn. Os yw'r llinell ffôn wedi cysylltu ac os yw'r rhybudd yn parhau, pwyswch y botwm canslo gwyrdd. Os yw'r rhybudd yn parhau, dylech gysylltu â'ch cyflenwr llinell ffôn (e.e. BT) oherwydd mae'n bosibl y bydd y llinell ffôn wedi torri.



Monitro toriad pŵer

Os bydd y pŵer yn methu, bydd yr uned cartref yn dal i weithio gan ddefnyddio batri wrth gefn, fodd bynnag, fel rhybudd bydd y golau coch LED yn fflachio bob 4 eiliad (gweler yr adran - beth mae'r goleuadau ar yr uned yn ei olygu). Bydd yr uned hefyd yn cyhoeddi *'RHYBUDD - does dim pŵer o'r prif gyflenwad'*. Caiff y rhybudd hwn ei ailadrodd bob 5 munud. I dawelu'r rhybudd ailgysylltwch y cebl pŵer.

Os yw'r toriad pŵer yn para mwy nag 1 awr, yn ystod yr awr nesaf bydd yr uned yn galw'r ganolfan fonitro yn awtomatig. Bydd galwad yn cael ei chyflwyno bob 4 awr i'r ganolfan fonitro nes bydd y pŵer yn cael ei adfer. Mae gan y batri 40 awr o egni wrth gefn.



Gwybodaeth Ddefnyddiol

Rydym yn deall y gallech ddod ar draws anawsterau wrth osod eich larwm Lifeline Vi. Os cewch unrhyw drafferthion, ffoniwch un o'n swyddogion cymwys ar **02920 537080** unrhyw bryd yn ystod y dydd neu'r nos.

Os nad ydym yn gallu datrys y problem cysylltiad dros y ffôn, rydym yn addo galw gyda chi o fewn 72 awr i osod eich larwm yn llawn yn unol â hynny.

Ewch i'n sianel YouTube ****Telecare Cardiff**** a dewis y fideo o'r enw *'Connecting your Lifeline Vi alarm'* er mwyn gweld sut i gwblhau'r broses osod yn llwyddiannus.

Gweler ein manylion cyswllt isod am unrhyw ohebiaeth neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am ein cynhyrchion eraill a'r gwasanaethau.

Teleofal Caerdydd
Tŷ Wilcox
Dunleavy Drive
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF11 0BA

02920 537080 (Ffôn)
Teleofal@caerdydd.gov.uk (e-bost)
www.teleofalcaerdydd.co.uk



teleofalcaerdydd.co.uk •  02920 537080 •  Teleofal@caerdydd.gov.uk